



Eich dewis chi.....



neu



Os byddwch yn adnewyddu eich trwydded yrru, bydd yn rhaid i chi dderbyn un sydd yn arddangos Jac yr Undeb. Mae'r Cymry, yn gyffredinol, yn anhapus am hyn am na chynrychiolir Cymru ar y faner Brydeinig. Felly, cynhyrchodd Gwasg y Lolfa fathodyn o'r Ddraig Goch y gellir ei ludio dros y "Jac". Mae hwn ar gael gan Wasg y Lolfa www.lolfa.com, gan Olygydd "Cwmni" ac mewn siopau llyfrau Cymraeg.



Mynegwch eich cenedligrwydd drwy arddangos ein Draig Goch. Mae'r bathodynau ond yn costio £2 am becyn o chwech.



Y PWYLLGOR A'R SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt **Ymgynghorydd:** Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Golygydd Lluniau: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney **Digwyddiadur:** Lowri Jones Lowri@mentercaerffili.org

Ieuenctid: Morgan Roberts Swyddog Prosiect Llais, Menter Caerffili

Pwyllgor: Eleri Betts, Eirlys Thomas, Dafydd Islwyn, Tamsin Graves a Gareth W. Williams

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Cofio Mair Williams,

O Gwm yr Aber yr daeth teulu Mr a Mrs Ben Williams i fyw yn Arosfa ger Clwb Rygbi, Caerffili. Roedd yno wyth o blant, a Mair oedd yr hynaf ohonynt. Yna daeth chwe mab cyn geni Andrea (Madeley i ddarllenwyr y papur bro). Roeddent yn selog yn Beulah, Abertridwr cyn mynd i Donyfelin, wedi symud i'r dref. Mae'n rhaid bod gweld y teulu yn cyrraedd yn dipyn o olygfa. Y bechgyn oedd Larry, David (a fu farw rai blynyddoedd yn ôl) Gwyn, Cyril, Ben a Viv. Yn ddiweddarach symudodd y teulu i Annwylfa, Corbett Crescent.

Cymhwysodd Mair fel athrawes Gwyddor Tŷ, gan weithio yn Ysgolion Uwchradd Pontlotyn, Ysgol y Groes-wen, ac yna Ysgol Basaleg. Ymddeolodd yn gynnar er mwyn gofalu am ei mam a chadw siop gwerthu nwyddau gwau yng Nghaerffili. Ar ôl marw ei mam gweithiodd gyda nifer o Ysgolion Meithrin yn y cwm. Bu yn selog fel athrawes Ysgol Sul yn Nhonyfelin am flynyddoedd lawer, ac ymserchai pawb ynddi. Bu'n weithgar gydag Aelwyd yr Urdd yn y dref ac roedd yn frwdfrydig ei hymrwymiad i Blaid Cymru. Cefnogai sawl achos da yn y fro ac yn arbennig gwaith Cronfa Achub y Plant a Chronfa Marie Curie.

Er na fu iddi briodi a chael teulu ei hun, bu'n fodryb annwyl i'w holl deulu. Yn hwyrddydd ei hanes bu'n fwyfwy ddibynnol ar Chris ac Andrea gan fyw gyda hwy yn Radyr. Yna daeth yr adeg lle'r oedd angen gofal arbenigol a bu Cartref Penrhos yn ofalus ohoni. Bu farw yn Ysbyty Brenhinol Gwent, ganol mis Ebrill a chynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Tonyfelin. Coffa da o wraig gymwynasgar a charedig.

Y Parchedig Denzil John



*Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad
Cymru*

“Hystings” yng Nghaerffili

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o addysg Gymraeg adeg etholiadau'r Cynulliad, trefnodd RhAG “hystings” yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, safle'r Gwyndy, nos Fawrth y 12fed o Ebrill.

Y Trefnydd Cenedlaethol, Ceri Owen, fu'n gyfrifol am y noson a gwahoddwyd y newyddiadurwr gwleidyddol, Gareth Hughes i gadeirio'r ymryson. Llwyddwyd denu cynrychiolwyr o bob un o'r pedair prif blaid i gymryd rhan.



Roedd dau o'r siaradwyr yn gyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a'r ddau wedi mynd oddi yno i Rydychen – ac yna i weithio dros elusennau. Mae Owen Evans, a siaradodd ar ran y Blaid Lafur, yn gyn-ddisgybl Ysgol Gymraeg Pengam ac roedd Delyth Jewell, a fynychodd Ysgol Bro Allta, yn eiriol dros Blaid Cymru. Bydd darllenwyr “Cwmni” yn cofio'r papur yn dathlu'r ffaith mai Delyth oedd Ymchwilydd y Flwyddyn yn San Steffan ryw ddwy flynedd yn ôl.

Rhys Taylor oedd yn gosod safbwynt y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae e'n gyn-fyfyriwr Prifysgol Bangor ac yn gyn-ddisgybl

Ysgol Gyfun Rhydfelen. Ar ôl treulio dwy flynedd yn Llywydd ac Is-Lywydd Undeb Myfyrwyr Bangor, mae nawr yn gweithio mewn Undeb Myfyrwyr yn cefnogi myfyrwyr i wella'u profiad a chyrhaeddiad academiaidd.

Suzy Davies oedd cynrychiolydd y Ceidwadwyr a hithau wedi bod yn Aelod Cynulliad ers 2011 yn weinidog cysgodol yn gyfrifol am Dwristiaeth, Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Threftadaeth, ac fel cyfarwyddwr polisi hi sydd yn gyfrifol am fanifesto ei phlaid.

Y prif themâu a gododd yn ystod yr holi oedd y diffyg cysondeb rhwng yr amryw gynghorau yng Nghymru wrth ddarparu addysg Gymraeg. Nodwyd bod Caerffili ar flaen y gad ond prin iawn fu'r datblygiadau mewn ardaloedd eraill. Tra bo 13 o ysgolion Cymraeg yn Sir Caerffili, dim ond un sydd ym Mlaenau Gwent. Nodwyd nad oes Ysgol Gymraeg ychwanegol wedi agor ym Mwrdeistref Merthyr ers dros ddeugain mlynedd. Beth sydd i'w wneud ynglŷn â hyn, felly?

Mynegwyd y farn mai digon aneffeithiol oedd y cynlluniau WESP (*Welsh Education Strategic Planning*) sy'n galw ar i awdurdodau addysg fynegi eu bwriad ynglŷn ag addysg Gymraeg. Er bod y canllawiau yn galw ar i'r cynghorau hybu'r Gymraeg, does dim galw arnynt i fanylu. Ac am nad oes targedau pendant, does dim modd eu beirniadu am fethu cyflawni. Dogfenni heb “ddannedd” yw'r rhain ond a ddylid cosbi'r sawl sy'n bodloni galw ond heb hyrwyddo'r galw hynny?

Pwnc llosg arall oedd yr un sy'n ymwneud â thalu am deithio wedi'r oed addysgu statudol. Nid y caledi a achosir gan hyn oedd yr unig ofid ond, hefyd, y ffaith bod y fath amrywiaeth rhwng yr awdurdodau yn creu “Loteri Cod Post”.

Er bod y siaradwyr yn ymgeiswyr yn etholiadau'r 5ed o Fai, roedd un neu ddau heb fod yn agos iawn i frig y rhestr rhanbarthol ac, felly, yn annhebyg o gael eu hethol. Wrth gloi'r noson mynegodd y Cadeirydd y farn ei bod yn drueni bod yr holl siaradwyr, a fu mor gefnogol i addysg Gymraeg, ddim yn mynd i fod yn y Bae wedi'r etholiad ac felly ddim mewn sefyllfa i wireddu'r bwriadau teilwng hyn.



**AELODAETH
YR URDD**
2015-2016

01239 652162
aelodaeth@urdd.org

Cystadleuthau Chwaraeon Rhanbarth Gwent 2016

Dyma'r rhai fydd yn cynrychioli'r Rhanbarth yng Ngŵyl Chwaraeon yr Urdd yn Aberystwyth 7-8 Mai 2016. Llongyfarchiadau i bawb

Pêl-Droed 7-bob-ochr: Ysgol Gymraeg Trelyn Pêl-rwyd: Ysgol Gynradd y Santes Elen
Pêl Droed 7 pob- ochr Merched: Ysgol Gymraeg Trelyn
Rygbi Cynradd: Ysgol Gymaeg Caerffili Rygbi Tag i Ferched: Ysgol Gynradd y Coed Duon

Cystadleuthau Celf a Chrefft Rhanbarth Gwent



Dyma'r linc ar gyfer gweld canlyniadau cystadleuthau yr Urdd eleni.

CANLYNIADAU LLWYFAN RHANBARTH GWENT 2016

[https://www.urdd4.org/canlyniadau/CanlyniadauEisteddfodRhanbarth2016.a5w?
CodDig=2754&Dig=Eisteddfod%20Rhanbarth%20Gwent%202016](https://www.urdd4.org/canlyniadau/CanlyniadauEisteddfodRhanbarth2016.a5w?CodDig=2754&Dig=Eisteddfod%20Rhanbarth%20Gwent%202016)

CANLYNIADAU CELF A CHREFFT RHANBARTH GWENT 2016

[https://www.urdd4.org/canlyniadau/CanlyniadauEisteddfodRhanbarth2016.a5w?
CodDig=2771&Dig=CDT%20Gwent%202016](https://www.urdd4.org/canlyniadau/CanlyniadauEisteddfodRhanbarth2016.a5w?CodDig=2771&Dig=CDT%20Gwent%202016)


COGURDD

Prynhawn cyffroes o goginio yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ddydd Mercher 20 Ebrill. 20 o blant Blwyddyn 4-6 o 10 o ysgolion cynradd yr ardal wedi cystadlu. Roedd y safon yn wych a phawb wedi paratoi gwledd. Da iawn bawb a llongyfarchiadau arbennig i'r 3 ddaeth i'r brig. Diolch i Siwan Jones, Athrawes Arlwyio Ysgol Gyfun Cwm Rhymni am feirniadu'r gystadleuaeth

1af William Nicholas, Ysgol Gymraeg Y Castell
Ail Ruby Moseley, Ysgol Y Lawnt
3ydd Caitlin Jones, Ysgol Y Lawnt




Posau'r Plant gan Mary Jones



Pa ddau aelod o'r côr sydd yr un peth?

Allwch chi ddod o hyd i NAW gwahaniaeth yn y ddau arwydd?



Ydych chi'n gallu trefnu'r llythrennau i wneud geiriau am yr Eisteddfod?

rôc naflwy swaniod anuc saem llebap roddad dracia

Mae'r atebion i'w gweld ar waelod tudalen 17

Apwyntiad i'r Cynulliad.



Mae bob tro yn hyfryd clywed am gyn-ddisgyblion y cwm yn dychwelyd i Gymru a chael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith. Bydd llawer o ffrindiau Eleri Wyn Jones, Bryn Siriol, Caerffili, yn gwybod iddi fod yn gweithio yn yr India am gyfnod ac wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil a derbyn gradd Ph.D ym maes cymdeithaseg a hawliau merched.

Apwyntiwyd Eleri yn ddiweddar i fod yn Uwch Swyddog Ymchwil yn y Cynulliad a bydd yn dechrau ar ei gwaith ym mis Mai.

Llongyfarchiadau Eleri. (Byddai'n dda gan ddarllenwyr y papur

bro glywed am yrfaedd cyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a bydd y golygydd yn falch o dderbyn y newyddion hyn.)

“Hir Oes i’r Iaith Gymraeg”

Gyda’r Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld â’r Fenni eleni mae’n sicr y rhoddir sylw o’r newydd i un o wir enwogion yr ardal, un a wnaeth gymaint â neb i achub a hyrwyddo’r iaith a’r diwylliant Cymraeg yn Sir Fynwy.

Ganed Augusta Waddington ar yr 21ain o Fawrth 1802, yr olaf o chwe merch Benjamin a Georgina Waddington. A bu fyw yn ystod pob degawd o’r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dangosodd ei natur benderfynol pan ond yn dair blwydd oed wrth i’w mam ei haddysgu hi a’i chwioridd ar raddfa eang iawn gan fod eu hastudiaethau yn cynnwys Lladin, Groeg, Sbaeneg ac Eidaleg yn ogystal â cherddoriaeth, hanes, daearyddiaeth a dysgu lluniadu.



Yn ferch ifanc, dywedir iddi ddwlu ar fyw yn Llanofor ac i ddysgu’r Gymraeg drwy gymysgu â Chymry Cymraeg Llanofor a Llanelen yng nghyffiniau’r Fenni. Teithiai’r teulu’n eang a chyflwynwyd y chwioridd i aelodau’r teulu brenhinol. Mae’n debyg i Sior III alw’r Augusta ifanc yn “*a very beautiful little thing*”.

Dylanwad bore oes ar Augusta oedd Eliza Greenly, ymwelydd cyson â Llanofor ac yn un a siaradai’r Gymraeg yn rhugl ac a gefnogai achosion Cymreig â brwdfrydedd. Credir mai clywed Eliza’n canu mor swynol, yn enwedig hen alawon Cymraeg, achosodd i Augusta fod mor frwdfrydig dros gerddoriaeth Gymreig gydol ei hoes.

Hoffai Augusta helpu tenantiaid Llanofor gan ymweld â’r sawl oedd yn sâl ac edrych ar ôl eu hanifeiliaid anwes. Roedd yn barod iawn i roi enwau Cymraeg ar eifr ac anifeiliaid eraill, fel Pert, Neidiwr, Caswallon a Cheidwad. Roedd hi a’i chwioridd yn wirioneddol hapus yn byw mewn man mor brydferth yn ymyl nant Rhyd y Meirch a lifai i mewn i’r afon Wysg.

Tua 1808 roedd perthnasau i deulu’r Crawshays wedi symud i mewn i Abercarn yng Nghwm Ebwy. Y teulu Hall oedd y rhain a daeth eu mab Benjamin i hoffi’r wlad o’i gwmpas yn y cwm hwnnw. Ym mis Rhagfyr 1823 priododd Augusta â Benjamin. Pan fu farw tad Augusta yn 1828 etifeddodd hi a Benjamin ystad Llanofor a daethant i fyw i Dŷ Uchaf.

Dechreuwyd adeiladu Llys Llanofor yn 1828 fel modd i wireddu breuddwyd Benjamin ac Augusta o greu canolfan i’r diwylliant Cymraeg. Man cyfarfod fyddai hwn ar gyfer beirdd, cerddorion, haneswyr ac academyddion.

Mae’n debyg iddi fod yn awyddus i gael gweision a morynion o ardaloedd mwy traddodiadol Gymraeg y gorllewin er bod yr iaith yn dal ei thir yn Sir Fynwy ddechrau’r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mynnai hefyd bod y sawl a gyflogwyd ganddi yn gwisgo brethyn Cymraeg er mor anghyfyddus y gallai hwnnw fod,


yn enwedig pan oedd y tywydd yn boeth. Yn wir, Arglwyddes Llanofor oedd yn gyfrifol am yr hyn a elwir yn wisg genedlaethol ein gwlad. Hi gyflwynodd yr het ddu dal a’r betgwn. Roedd hi hefyd yn ddirwestwraig ddigyfaddawd ac nid oedd yn fodlon caniatáu agor unrhyw fath o dafarn ar diroedd ystad Llanofor.

Gwnaeth Augusta ei marc yn y maes diwylliedig wrth ennill cystadleuaeth ysgrifennu traethawd ar “*The Advantages resulting from the preservation of the Welsh Language, and National Costumes of Wales*” gan ennill y wobwr mewn Eisteddfod yng Nghaerdydd yn 1834. Ei ffugenw ar gyfer y gystadleuaeth oedd “Gwenynen Gwent” ac fe barhaodd yr enw hwn am ei bod mor brysur ag unrhyw wenynen wrth iddi hyrwyddo Cymreictod.



Llys Llanofor sydd bellach wedi’i ddymchwel

Yn 1850 cyhoeddwyd y cylchgrawn Cymraeg i fenywod, “Y Gymraes”, gan Ieuan Gwynedd ond gyda chefnogaeth yr Arglwyddes Llanofar. Yn yr un modd, yn ddiweddarach y flwyddyn honno, gyda chefnogaeth y Fonesig y cyhoeddodd Sylvan Evans eiriadur.



Y dylanwad mwyaf a fu ar ddatblygiad diwylliannol y Wenynen oedd Carnhuanawc, sef y Parchedig Thomas Price. Cyfarfu'r ddau yn yr eisteddfod gyntaf a fynychwyd gan Augusta, sef Eisteddfod Aberhonddu yn 1826. Roedd Carnhuanawc wedi sefydlu Cymdeithas Lenyddol Gymraeg Aberhonddu yn 1823 ac fe gyfareddwyd Augusta gan un oedd mor frwdfrydig â hithau am y Gymraeg.

Yn ogystal â bod yn ŵr academaidd roedd Carnhuanawc hefyd yn fedrus â'i ddwylo ac roedd ganddo weithdy yn ei gartref. Llwyddodd wneud telyn deires ac mae'n debyg mai yn Eisteddfod 1823 y daeth Augusta ar draws y delyn honno am y tro cyntaf. Ffolodd arno a theimlai mai hwn oedd ein hofferyn cenedlaethol. Nid y delyn draddodiadol, wrth gwrs. Nage, oherwydd teimlai y dylai'r werin fod yn gallu cario eu hofferyn gyda nhw.

Tua diwedd 1833 bu Carnhuanawc yn un o'r bobol a sefydlodd Gymdeithas Cymreigyddion y Fenni a ymhyfrydai yn yr arwyddair “Hir Oes i'r Iaith Gymraeg”. Buan yr ymunodd Benjamin a'i wraig â'r Gymdeithas ynghyd â phwysigion yr ardal, megis Charles Morgan a John a Charlotte Guest.

Bu farw Augusta, Lady Llanofar ar yr 17eg o Ionawr 1896 a theimlwyd y golled yn fawr iawn gan ei thenantiaid yn ogystal â'i chyfeillion mwy goludog. Ond ni fu ei gwaith farw gyda hi oherwydd parhaodd y gwaith dan arweiniad ei merch Mrs Augusta Charlotte Herbert, Llanarth. Hi oedd yr unig un o'i phlant hi a Benjamin i oroesi a thyfu yn oedolyn a'r deyrnged uchaf i'w hymdrechion hi oedd i bobol ei hystyried fel yr Ail Wenynen Gwent.



Cwmni Cwm Ni

Rhagbrawf Drama Eisteddfod Genedlaethol y Fenni 2016

“Gwenynen Gwent, Ddy Miwsical”

gan

Ben Jones

Dewch i gefnogi'ch cwmni drama lleol mewn rhagbrawf gerbron y beirniad

Morgan Hopkins

Nos Wener, 20fed o Fai

7:00 o'r gloch

£3

Neuadd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Safle'r Gwyndy, Heol
Pontygwindy, Caerffili

(Trowch i'r dde wrth ddod i mewn drwy'r gatiau ac ewch at y brif fynedfa)

Hilary Hamer yw'r ddysg wraig sy'n ein hatgoffa o un o gewri'r genedl

Yr Esgob William Morgan 1545 -10 Medi 1604 **Cyfieithydd y Beibl i'r Gymraeg**

Yr Esgob William Morgan oedd y dyn a gyfieithodd y Beibl yn gyflawn i'r Gymraeg am y tro cyntaf. Cyhoeddwyd ei Feibl ym 1588.

Gaeth William Morgan ei eni yn 1545 yn Nhŷ Mawr Wybrnant, ym mhlwyf Penmachno ger Betws y Coed Gogledd Cymru. Roedd ei dad, John Morgan yn denant ar ystad Gwydir. Gaeth William ei addysgu yng Nghastell Gwydir, ger Llanrwst, gyda phlant y teulu Wynn. Mae Tŷ Mawr Wybrnant yn nwylo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol nawr.

Mae'n bosibl i William Morgan fynd i Ysgol Westminster, Llundain, am sbel. Aeth Morgan i Goleg Sant Ioan, Caergrawnt, lle astudiodd e athroniaeth, mathemateg a Groeg. Graddiodd e gyda BA ym 1568 a chyda MA ym 1571, cyn astudio'r Beibl am saith mlynedd ac astudiaethau Beiblaidd oedd yn cynnwys astudio'r Beibl mewn Groeg, yr Hebraeg a'r Aramaeg.

Astudiodd e swyddau Tadau yr Eglwys hefyd. Daeth William Morgan yn faglor diwinyddiaeth (BD) ym 1578 a doethur diwinyddiaeth (DD) ym 1583.

Yng Nghaergrawnt, roedd William Morgan yn gyfoeswr i'r bardd Cymraeg Edmwnd Prys, a chynorthwyodd e Morgan gyda chyfieithu'r Beibl yn hwyrach. Cafodd William Morgan ei benodi fel pregethwr y Brifysgol ym 1575.

Apwyntiwyd William Morgan yn ficer Llanbadarn Fawr ym 1572, Y Trallwng ym 1575, a Llanrhaeadr ym Mochnant a Llanarmon Mynydd Mawr ym 1578.

Yn ystod ei gyfnod yn Llanrhaeadr ym Mochnant, priododd William Morgan â Catherine merch George. Roedd hi'n weddw i Oliver Thomas, rhagflaenydd Morgan yn Llanrhaeadr, a hefyd trefnodd briodas rhwng Robert Wynn o Wydir ac aeres gyfoethog o ardal Llanrhaeadr, ar draul bachgen lleol. Cynddeiriogwyd bonheddwr lleol, Efan Meredith, gan y ddau beth yma, a chafwyd achosion cyfreithiol yn erbyn William Morgan ac Efan Meredith. Yn y diwedd, datryswyd y sefyllfa gan ymyrraeth Syr John Wynn o Wydir.

Er gwaetha'r problemau yma, parhaodd William Morgan â gwaith cyfieithu'r Beibl. Canmolwyd e'n fawr am ei wasanaeth cydwybodol a'i haelioni. Canwyd mawl iddo gan y beirdd Sion Tudur, Owain Gwynedd, Ieuan Tew a Siôn Mawddwy.

Ym 1595, apwyntiwyd William Morgan yn Esgob Llandaf. Yn dilyn marwolaeth Yr Esgob John Hughes ym 1601, apwyntiwyd e'n Esgob Llanelwy.

Bu farw William Morgan yno ym 1604.

Ym mis Medi 1588 gorchmynodd Y Cyfrin Gyngor i gopi o'r Beibl Cymraeg gael ei yrru i bob plwyf yng Nghymru ar gost o £1 y copi.

Ym 1620, golygwyd Beibl William Morgan gan Dr John Davies a Richard Parry, Esgob Llanelwy.

Mae pwysigrwydd William Morgan yn cael ei gydnabod o hyd.

Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn gweithio gyda wyth cantor a chantores ar berfformiad 'Gair ar Gnawd', a fydd yn cael ei pherfformio yn Y Ffwrnes, yn Llanelli. Mae'r ddau brifantor, 'Anwar ac Awen', o Opera Cenedlaethol Cymru, yn gweithio gyda phobl o ardal Llanelli. Thema'r opera yw colled ein capeli.

Mae'r opera yn pwysleisio yr angen am ffydd, gobaith ac elusen.

Seintiau Ansicr *Dr Elin Jones*

Gan ein bod yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ar ddechrau mis Mawrth, a Gŵyl Sant Padrig ar yr 17eg, addas iawn yw cofio seintiau'n bro yr adeg hon o'r flwyddyn. Serch hynny, er bod y ddau nawddsant wedi teithio'n bell, nid oes llawer o dystiolaeth iddynt bregethu yn yr ardal hon. Ond mae gennym ein seintiau brodorol hefyd – rhai gweddol sicr a rhai ansicr iawn.

Os gadawodd y Rhufeiniaid eu holion ym mhridd ein cwm, a geiriau Lladin yn y Gymraeg a siaradwn, gadawsant hefyd eu crefydd yn ein bro. Daeth Cristnogaeth i Brydain gyda'r Rhufeiniaid, a gwlad Gristnogol fu Cymru byth ers eu dyddiau hwy. Pan oresgynodd yr Eingl-Sacsoniaid paganau y rhan o Brydain a elwir Lloegr heddiw, diflannodd Cristnogaeth o'r ardaloedd hynny, ond parhau'n Gristnogion wnaeth y Cymry, a magu seintiau cenhadol hefyd - rhai ohonynt yn ein bro ni. Un o'r cynharaf ohonynt yw Cadog, nawddsant Gelligaer, a aned yno, yn ôl y traddodiad, tua 497 OC. Mae Cadog yn nawddsant nifer o eglwysi eraill, wrth gwrs, ac eglwys enwog Llancarfan yn un ohonynt, ond mae'r traddodiad sy'n ei gysylltu gyda'n hardal ni yn un cryf iawn. Ysgrifennwyd hanes ei fywyd ym 1086, ac er bod hwn, fel llawer o fucheddau tebyg, yn llawn chwedlau digon rhyfedd, mae'r cyfeiriad ato fel mab Gwynllyw, tywysog Gwent, yn cael ei gadarnhau gan ffynonellau eraill.

Un peth arbennig o ddifyr am Cadog yw'r cysylltiad amlwg sydd rhwng yr eglwysi a gysylltir ag ef a safleoedd Rhufeinig. Mae eglwys Gelligaer, er enghraifft, wrth ymyl y gaer Rhufeinig, ac mae Llancarfan yn agos at yr A48, sydd yn dilyn yr hen ffordd Rufeinig.

Nid oes cymaint o sicrwydd am seintiau eraill ein cwm. Disgybl i Cadog oedd Barruc, nawddsant eglwys Bedwas, ond mae mwy o chwedl nag o ffaith yn perthyn i'w hanes trist ef, yn boddi ym Môr Hafren wrth iddo fynd i nôl llyfr ei athro St Cadog a adawyd ar Ynys Echni.

A phwy oedd Sannan, nawddsant Bedwellte, neu Tudur, nawddsant Mynyddislwyn? Does neb yn gwybod dim am Ilan, druan, ac yn wir mae rhai'n meddwl taw camddehongli'r gair “llan” rywdro a roddodd fodolaeth iddo. A beth am Mabon, a goffheir yn Llanfabon? Mae Mabon mab Modron yn digwydd yn y Mabinogi, ond nid ym mucheddau'r saint! Cewch dipyn o hwyl, ond nid llawer o oleuni, wrth holi Mr Gwgl am y rhain.

Mae un sant lleol sydd heb ei enwi eto, sef St Cennydd. Barn David Thomas yn ei lyfr gwerthfawr *Enwau Lleoedd ym Murdeistref Sirol Caerffili* yw taw fersiwn arall ar Sannan (neu Sangan) yw'r elfen gyntaf yn yr enw 'Senghenydd', er bod 'Seint Genith' yn cael ei nodi fel enw'r ardal mor gynnar â 1326. Aethpwyd ati wedyn i greu sant newydd ar sail y camgymeriad hwn. Mae enwau lleoedd mor ansefydlog â chwedlau'r seintiau!

Oedfaon Mis Mai yng nghapeli Cymraeg Caerffili

Tonyfelin

1af Y Parch Milton Jenkins fore a hwyr

8fed Y Parch Milton Jenkins fore a hwyr

15fed Sul o Fawl

22ain DIM OEDFA - Velathon yn cau'r stryd

29ain Y Parch Dafydd Henri Edwards
fore a hwyr

Bethel, Heol Nantgarw

10.30 Alun Johnson. **6.00** Dim Gwasanaeth

10.30 Y Parch Hywel Wyn Richards, Penybont
Cymun yn y bore.
6.00 Dim Gwasanaeth

Ymuno â Thonyfelin


10.30 Mari o Gymorth Cristnogol
6.00 Dim Gwasanaeth

10.30 Y Parch Peter Dewi Richards.
6.00 Dim Gwasanaeth

Fy Mlog o Dde America (Rhan 2)

gan Gareth Williams

Mae Brazil yn wlad enfawr, boeth, hardd, liwgar, brysur, swnllyd, gyfoethog, dlawd, afler, anghyfiawn, lwgr, beryglus, ddiddorol. Mae gen i dri indecs amrwd sy'n rhoi syniad i mi am anian cymdeithasau rownd y byd: pa mor barod yw gyrrwyr i stopio i gerddwyr; faint o heddlu sydd i'w gweld yn amlwg ar y strydoedd; a faint o gyfraniad wnaeth y wlad honno i ddiwylliant byd. Ateb y tri hwn yng nghyswllt Brazil yw: dim siawns; lot fawr a lot fawr.



Cyrhaeddom Recife yng ngogledd Brazil wedi taith ar foroedd esmwyth o Capo Verde a chael y blas cyntaf o'r wlad a chael ein chwipio ar fws rownd y lle mewn byr dro. Eglwys, eglwys, eglwys arall, marchnad dwristiad a deng munud ar y traeth. Aethon ni ddim ar daith arall! Mae eistedd mewn bar yn cael peint a gwyllo'r byd yn mynd heibio yn llawer gwell ffordd o gael blas o unrhyw le. Prin fu'r cyfle i wneud hynny. Cawsom gyfle gwell yn y lle nesaf, Ilheus, a darganfod bod trigolion Brazil yn hynaws, croesawgar, yn hynod falch o'u gwlad ac yn brin eu Saesneg. Fe alwon ni mewn sawl lle ar ein ffordd i lawr yr arfordir ac ar ein ffordd adref. Santos (cartref Pele, fe alwais i ond doedd e ddim adre), Rio Grande, Natal (oes mae un yn Ne Affrica hefyd), ond am ddau le yn y wlad yr hoffwn i sôn yn bennaf, sef Rio de Janeiro a Salvador.

Mae hwylio i mewn Rio yn brofiad y dylai pawb ei gael rywbyrd. Mae'r olygfa yn fythgofiadwy ond roedd y porthladd yn Rio yn safle adeiladu gyda'r bwriad o gael y cyfan yn barod erbyn y Mabolgampau Olympaidd. Choelia i byth! Rhaid oedd croesi rheilffordd oedd yn cael ei hadeiladu trwy rwbwl i warws wrth y cei er mwyn llogi taci ond hynny a waethom a darganfod Cleber, y gyrrwr hynaws a'n hebryngodd ni rownd y ddinas: i stadiwm y Maracanã, lle cyflawnodd Pele lawer o'i orchestion a lle mae cefnogwyr y ddau dîm sy'n chwarae yno (Fluminense a Flamengo) yn aml yn saethu ei gilydd.

Ymlaen i safleoedd y Carnifal; i draeth Copacabana yn y glaw ac i dref Petropolis, sy'n rhyw fath o Landrindod moethus ar gyfer byddigions yn dianc rhag tes Rio. Wn i ddim pam aethon ni yno ond roedd yn gyfle i weld y wlad drawiadol fynyddig sydd o amgylch y ddinas. Y diwrnod wedyn yr aethon ni i droed Crist y Gwardwr oedd wedi dod allan o'r niwl oedd wedi bod yn ei guddio y diwrnod cynt. Mae golygfeydd syfrdanol oddi yno. Os ewch chi, ewch yn gynnwys i osgoi'r miloedd sy'n heido yno a'u camerâu. Mae'r cerflun yn edrych dros ddrwg a da, cyfoethogion a thlodion, y naill mewn palasau modern a'r lleill mewn ffafelas budron sy'n treiddio i unrhyw lecyn gwag o dir



Pa syndod bod cenfigen a thrais mor gyffredin pan fo'r ffin rhwng moeth a thlodi dybryd mor amlwg ac mor agos. Wrth deithio trwy'r ddinas dan adain warcheidiol Cleber gwelem graffiti lu yn aml o symbolau annealladwy ar waliau. Cefais wybod mai symbolau yn dynodi parthau'r gangiau yn pedlo cyffuriau oeddent!

Roedd y carnifal blynyddol i ddigwydd rhyw bythefnos wedyn, ond o beth welwn i mae trigolion Rio yn ymarfer yn ddygn ar ei gyfer rownd y rîl. Fin nos yn Lapa, ardal y barau a'r clybiau, mae hi'n ffair yn gyson. Welais i erioed gymaint o fwrlwm wrth gael diod ar gornel un o'r strydoedd. Daeth merch atom yn cynnig canu i ni, a gwnaeth. Gofynais am gael benthyc ei gitâr, a chefais. Hei, rwyf wedi bysgio yn la Lapa yn Brazil. Chlywodd neb, roedd gormod o sŵn, diolch byth! Am gerddoriaeth, chlywch chi byth well, ddim gen i ond gan y bandiau



niferus sy'n perfformio ym mron pob bwyty o beth welwn i. Roedd tinc jazz a'r samba i'w glywed ym mhobman a phopeth yn frodorol ac o safon yn hytrach na'r arlwy o gerddoriaeth ffug Americanaidd gawn ni yn aml yng Nghymru. Roedd y balchder yn eu bro yn amlwg. Bydd Rio yn aros yn y cof. Bydd Salvador da Bahia hefyd yn y cof ond am resymau gwahanol.

Llynedd ym Mrazil bu 58,000 o lofuddiaethau a hynny mewn poblogaeth o rhyw 200 miliwn. Yn Salvador, yn ôl tystiolaeth un o'r trigolion, Gwyddel gyfarfuon ni mewn bar, bu 4,200 o lofruddiaethau yn y ddinas hon o rhyw ddwy filiwn a hanner. Doedd o ddim yn mynd allan ar ôl iddi hi dywyllu chwaith. 'O', medde fi wedi cael y wybodaeth ar ôl i fy ngwraig fynd i godi arian o dwll yn y wal cyfagos, ar ei phen ei hun. Dychwelodd yn ddiogel. Cofiwch chi, faswn i ddim yn dadlau â hi. Maen nhw'n eu magu nhw'n galed yn Adamsdown. Roedd plismyn ym mhobman a

sawl un o'r trigolion yn rhoi cyngor i beidio mentro o'u golwg i strydoedd llai. Daeth plismon ar ei feic modur heibio a phlismon arall ar y cefn yn drwch o arfau; 'riding shotgun!' Roedd cardota ar bob stryd gan anffodusion methodig bywyd a'r ychydig reals a roiem iddynt fel piso dryw bach ym môr eu trallod. Wedi dychwelyd i ddiogelwch y Marco Polo darganfuom fod chwech o bobl wedi cael eu mygio a breichledau, ffonau, ipads a chamerau wedi eu dwyn. Pa ryfedd a ninnau yn ein lifrau gwylliau naif yn lordio traglins ein moethusrwydd yn eu gwydd. Mae'r bobl hyn yn dwyn nid yn unig o angen dybryd ond o ymdeimlad o anghyfiawnder.



Wrth adael Brazil am yr Ariannin, y teimlad gefais i oedd ei bod hi'n sen bod biliynau wedi cael eu gwario ar Gwpan y Byd a'r Mabolgampau Olympaidd yno, a hwythau'n methu bwydo, addysgu, a rhoi to i gynifer o'u trigolion, ond bobol mi oedd o'n lle diddorol!



Edrychwn ymlaen i ddarllen mwy yn rhifyn nesaf "Cwmni" am anturiaeth Gareth a Pat ym mhellteroedd byd.

Yr her o fyw Sul y Pasg mewn byd Gwener y Groglith

gan y Parchedig Denzil John

Dros gyfnod y Grawys eleni bu nifer o ddigwyddiadau erchyll yn hawlio ein sylw ar y cyfryngau. Bu'r bomio ym Mrwsel yn arswydus gyda thri hunanladdwr yn achosi difrod sylweddol yn y maes awyr ac ar un o'r trenau tanddaearol yn y ddinas.

Roedd cysylltiad amlwg rhwng y digwyddiad hwn a'r trasiedi ym Mharis llynedd. Nid oes modd rhagweld ble fydd targed nesaf ISIL na sut mae atal y llif o bobl sy'n ymuno yn y crwsâd mawr maent yn ei hyrwyddo. Prin fod ISIL yn cynrychioli neges y grefydd Fwslemaidd, a bydd y modd maent yn targedu Cristnogion yn eu brwydro yn arswydus.

Ychydig amser ar ôl y Pasg, bu hunanfomiwr arall yn gyfrifol am ladd plant mewn cae chwarae yn Lahore yn Pacistan, a rhyddhawyd datganiad yn dweud eu bod yn targedu Cristnogion ar adeg y Pasg.

Yng Nghaerdydd, fel yn nifer fawr o ddinasoedd poblog gwledydd Prydain, mae ymdrechion sylweddol i gyfyngu llif traffig i fewn i'r canol. Ac o boptu prif ardal mynediad y maes rygbi cenedlaethol mae pileri yn y ffordd a fydd yn codi er mwyn lleihau'r perygl o geir yn gyrru at y tyrfaedd niferus adeg gemau rhyngwladol.

Ddydd Gwener y Groglith roedd Asad Shah, siopwr 40 oed yn Glasgow, wedi rhoi neges hyfryd ar ei weplyfr yn dwyn cyfarchion i'w gwsmeriaid, gan ddymuno Pasg Hapus iddynt. Nododd ei fod yn cydnabod Iesu fel proffwyd ac yn un i'w anrhydeddu.

Cyn diwedd y dydd, roedd dau Fwslim wedi ymosod arno gyda chylllell, a'i ladd ar y stryd nid nepell o'i siop. Byddwn yn gofyn sawl cwestiwn am stad meddwl y ddau a laddodd Asad, ond mae'n dra thebygol mai meddylfryd ISILaidd oedd wrth wraidd y barbareiddiwr gorffwyll hwn. Y gwahaniaeth rhwng y digwyddiad hwn yn Glasgow a'r bomwyr ym maes awyr Brwsel oedd mai dialedd penodol tuag at unigolyn a ddangoswyd yn Glasgow tra bod y bomio ar y maes awyr yn gyffredinol ac amhersonol.

Mae'r byd yn gweld enghreifftiau o orffwylledd lladd, sy'n ein hatgoffa o'r hyn a ddigwyddodd yn Jerwsalem pan groeshoeliwyd Iesu. Byddai'n ddigon hawdd meddwl fod dialedd a thrais yn perthyn bellach i ISIL, ond bydd taranu Donald Trump yn dangos yr un math o feddylfryd sy'n dathlu grym y bomio.

Dros benwythnos y Pasg eleni cofiwyd am yr hyn a ddigwyddodd ganrif yn ôl pan saethwyd nifer o arweinwyr y gweriniaethwyr yn Iwerddon wrth geisio hunanreolaeth i'r wlad ac uno gogledd a de. Yn eu plith roedd Pádraig Pearse a James Connolly. Yn hytrach na diffodd fflam y gweriniaethwyr, llwyddodd y lladd hwn gan filwyr Prydain godi fflamau uwch yn Iwerddon, a gwelsom greulondeb arswydus yn Iwerddon dros y ganrif ddiwethaf.

Rhan greiddiol o neges y Pasg yw cyhoeddi gweithredu'n ddi-drais yn erbyn trais, a byw cariad a thrugaredd mewn byd o gasineb a dialedd. Nid trwy fomio ISIL mae gwared y drwg ond drwy ddangos ffordd wahanol Iesu i fyd yr hoelion a'r bom. Nid drwy wahardd ceiswyr lloches Mwslimaidd o wledydd Prydain mae dangos y cariad hwnnw ond drwy ddangos parch ac ewylllys i'w cofleidio.

(Mae'r myfyrdod hon yn addasiad o gyfraniad Denzil John, ar Radio Cymru. Mawrth 2016)

Merched y Wawr Cwm Rhymni



Daeth un o'n haelodau, sef Gwyneth Davies, Maesycwmer, i'n diddanu gyda sgwrs a lluniau



am ei thaith hi a'i gŵr Gwynfor mewn trên ar draws Unol Daleithiau'r Amerig. Wedi hedfan i Efrog Newydd, dechreuon nhw eu taith ar draws y cyfandir ar y trên Amtrak Lake Shore i ddinas Boston ble cawsant hoe fach am 5 noson cyn ymuno â'r trên un-waith eto i Emeryville, San Fransisco.

3,397 milltir o daith yw hi o Efrog Newydd i San Fransisco a'r trên yn mynd drwy 11 talaith – sef New York, Pennsylvania, Ohio, Indiana, Illi-

nois, Iowa, Nebraska, Colorado, Utah, Nevada a Chalifornia.



Taith 3 noson, 4 diwrnod i gyd - sef 1 noson o Efrog Newydd i Chicago ac yna 2

noson o Chicago i San Fransisco. "Roedd yn brofiad arbennig ac yn gyfle gwych i weld tirwedd amrywiol y wlad enfawr hon ac i brofi rhyfeddodau fel y Rockies a'r Nevadas mewn cerbyd llawn ffenestri," meddai Gwyneth.



Dyddiadau Pellach Merched y Wawr

Dydd Sadwrn, 18 Mehefin

Cawn dipyn o hanes yr ardal pan fydd Dr Elin Jones yn ein tywys ar daith gerdded oddi amgylch y Fenni a'r cylch ar drothwy Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffuniau. Byddwn yn cwrdd yn y Fenni am 10.00 (manylion lleoliad i ddilyn). Ymunwch â ni yn y Fenni neu os oes angen lle mewn car, rhowch wybod. Cawn swper cyn dychwelyd.

Trip Haf i'r Fenni

Nos Fercher, 20 Gorffennaf

Cwrdd am 6.00 yn Fferm Croesllanfro, Tŷ Du (Rogerstone). Fel un o erddi'r Cynllun Gerddi Cenedlaethol ers dros 20 mlynedd, mae'r ardd hon wedi codi llawer iawn o arian tuag at elusennau. £4.50 gan gynnwys gwin a lluniaeth ysgafn

Ymweliad â Gardd

Nid yw'r digwyddiadau uchod yn gyfyngedig i aelodau Mercher y Wawr. Os hoffech ymuno â ni neu am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r digwyddiadau uchod, cysylltwch â Gaynor gaynorw555@gmail.com neu ar 07984197629)

MADRID - ALICANTE Chwefror 2016 gan Wendy Lewis

Ar y dydd Mawrth, daeth Comisiwn Alicante ar gyfer Adfer Cof Hanesyddol â ni i'r fynwent. Roedd y bardd, Manuel Hernandez, yn un o dri o feibion enwog Alicante a laddwyd yn ystod dychryniadau Franco. Roedd swyddogion wedi gwrthod caniatáu iddo gael ei gladdu gyda'i wraig oni bai eu bod wedi priodi yn yr eglwys. Felly, roedd y dychryniadau yn dal eu gafael yn dynn hyd yn oed wedi marwolaeth.



Roedd dioddefwyr Franco wedi'u claddu mewn beddau di-nod mewn cornel o'r fynwent a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer y tlodion. Cafodd llawer ohonynt eu saethu yn y fan a'r lle. Ddeng mlynedd yn ôl darganfuwyd rhestr gyfrinachol o'r Gweriniaethwyr a ddiwyddiwyd, a thrwy ymchwil manwl iawn, cadarnhawyd gweddillion pwy oedd y rhai a ddarganfuwyd yn y bedd. Daethpwyd o hyd i ail bwl oedd â rhagor o gyrff ynddo. Mae enwau'r cannoedd a gladdwyd yn y ddau fedd yn cael eu coffáu ar ddwy heneb drawiadol. Yn ymyl beddau'r tlodion mae

bedd un o gadfridogion Franco; esblygodd myth trefol sy'n honni, yn eironig, mai corff dyn Affro Americanaidd o faint tebyg i'r ffasgwr oedd y sawl a gladdwyd yno.

Buom yn ymweld â bedd un o'r plant a laddwyd pan gafodd marchnad Alicante ei bomio gan y ffasgwyr Eidalaidd ar 25 Mai 1938. Llofruddiwyd dros 300 o sifiliaid, menywod a phlant yn bennaf, yn yr ymosodiad. Oherwydd gormes Franco, roedd yn amhosibl i ysgrifennu ar fedd y ferch a fu farw ei bod wedi cael ei lladd gan ffasgwyr Eidaleg. Felly, rhoddwyd arysgrif cryptograffig ar ei beddrod. Cafodd llun cloc a chalendr ei ysgythru ar y garreg i nodi amser a dyddiad ei marwolaeth, ac yn y canol, cerfiwyd bom (sy'n debyg i groes ar yr olwg gyntaf), i ddangos sut y bu farw.

Yn yr harbwr, buom yn ymweld â'r gofeb i Archibald Dickson, capten llong o Gaerdydd a achubodd 3000 o ffoaduriaid wrth i'r rhyfel ddod i ben. Roedd ei long, *Y Stanbrook*, wedi rhedeg y gwarchae ac wedi cyrraedd Alicante pan ruthrodd llu o sifiliaid i'r dociau, roeddent yn gobeithio dianc oddi wrth fomiau Franco. Aeth y llong, a oedd yn orlawn, â'r dynion, y menywod a'r plant i Oran yng Ngogledd Affrica. Yno, cafodd y merched eu cadw yn gymharol ddiogel mewn carchar ac fe gawsant fwyd gan y Sbaenwyr lleol. Arhosodd y dynion ar fwrdd y llong ond roedd eu hamgylchiadau'n enbyd. Yn y diwedd cafodd y ffoaduriaid eu gwasgaru. Bu rhai ohonynt farw mewn gwersylloedd crynhoi, dychwelodd eraill i Sbaen, ond cafodd ychydig o'r rhai a oroesodd fyw i weld y gofeb i'r *Stanbrook* yn cael ei dadorchuddio yn harbwr Alicante yn 2009, 70 mlynedd yn ddiweddarach.



Aeth y bws â ni i'r Campo de los Almendros drwgenwog, safle hen wersyll-garchar awyr agored lle cafodd hyd at 30,000 o Weriniaethwyr eu corlannu ar ddiwedd Rhyfel Cartref Sbaen, y tu ôl i weiren bigog, heb unrhyw lanweithdra, bwyd na dŵr. Bu raid i rai fwyta dail y coed almon a dyfai yno. Yn ddiweddarach, cawsant eu symud i garchardai Franco a gwersylloedd crynhoi.



Aethom wedyn i'r Farchnad Ganolog. Mae plac seramig wedi'i beintio â llaw ar un wal yn y fynedfa i goffâu'r erchylltra, ond nid yw'n cynnwys enwau'r troseddwyd. Mae plac mwy diweddar ar yr ochr arall sy'n nodi mai ffasgwyr Eidalaidd oedd y bomwyr. Mae'r gofeb ddiweddaraf, a gomisiynwyd gan y *Comision Civica de Alicante*, wedi'i gosod yn y palmant. Mae'r naw sgwâr yn cynrychioli'r naw awyren fomio, ac mae cylchoedd sy'n debyg i ddomino yn cyfateb i'r nifer o fomiau a gafodd eu gollwng. Mae goleuadau bychain yn disgleirio bob dydd i ddynodi adeg y bomio, er mwyn cynrychioli mewn modd graffig y 300 a laddwyd. Tu mewn i'r farchnad, gellir gweld cloc a stopiodd pan ffrwydrodd y bom.

Cyfarfu y Cynghorydd Sue Lent, Dirprwy Arweinydd Cyngor Caerdydd, â Maer sosialaidd Cyngor y Dref yn Neuadd y Dref, a dywedodd ei fod yn gobeithio sefydlu trefniant gefeillio rhwng y ddwy ddinas. Cawsom ginio yn *Les Pedreres* yn Elda Petrer, ac eto mwy o ganu rhwng y cyrsiau. Bu cyfarfod dinesig byr arall yn Petrer gyda chynghorwyr y glymblaid adain chwith cyn gyrru i Monover.

Yma ym Monover cafodd llywodraeth Weriniaethol Sbaen ei halltudio a'i gorfodi i guddio ar ddiwedd y rhyfel. Edrychom ar draws y briffordd ar y meysydd lle bu pencadlys olaf yr Arlywydd Negrin wedi'i guddio gan lwyni. Wrth iddi nosi, fe yrrom i'r aneddle anghysbell yn y mynyddoedd lle treuliodd Negrin, La Pasionaria a gweddill y llywodraeth eu hwythnosau olaf. Mae dwy loches rhag bomio, gyda thanc dŵr yn gyswllt rhyngddynt, yn cael eu cadw'n berffaith yn ymyl rhes o dai.

Ar y dechrau roeddem yn meddwl nad oedd trigolion yr ardal yn dymuno cadw eu hanes rhyfeddol yn fyw; ond pan gurodd rhywun ar ddrws y bwthyn lle roedd La Pasionaria a'r gweddill wedi aros, cawsant wahoddiad i ddod i mewn. Roedd y tŷ wedi ei adael bron yn union fel y bu. Yn wal y gegin roedd tair bricsen yn rhydd – cuddfan ar gyfer pethau gwerthfawr. Y cae cyfagos oedd y llain lanio frys lle y cychwynnodd y ddwy awyren a gludodd y Cabinet alltud i ddiogelwch yn Ffrainc, ond ychydig o dystiolaeth oedd ar gael o'i rôl allweddol yn hanes Sbaen.


Fe ddychwelom i'r Gwesty Maya yn Alicante, ac fe gerddom ar hyd ei strydoedd cefn tawel. Daethom o hyd i far tapas traddodiadol - ffordd addas iawn i dreulio ein noson olaf yn Sbaen, gan hel atgofion a siarad gyda ffrindiau, fel y gwnaeth sawl cenhedlaeth o'n blaenau.

Bu geiriau'r gân "*Valley of Jarama*" yn adleisio yn ein pennau: "rydym wedi gadael y dyffryn tywyll hwnnw am byth, ond fe erys y cof o'r frwydr i ennill rhyddid a chyfiawnder, ochr yn ochr â phobl Sbaen".

Diolch i Wendy am rannu gyda ni ei ymchwiliadau yn Sbaen. Edrychwn ymlaen ddarllen am fwy o'i theithiau ar dudalenau "Cwmni"

Colofn Dafydd Islwyn

Rhyw ben bob wythnos ers blynyddoedd lawer cerddaf i lawr Henry Street ar fy ffordd i Sgwâr Bargod. Am fwy na deuddeg mlynedd cerddais ar ei hyd i fynd i'r gwaith i Drelewis. Cerdded i'r Sgwâr i ddal y bws *Red and White* a deithiai o Bontypridd i Fargod trwy Nelson, Y Shingrig, Gelligaer, Glyngaer, Penpedairheol - Cascade i'r cwmni bysus - i lawr i Glanynant / Pengam ac i fyny drwy Gilfach i Sgwâr Bargod. Dychwelyd wedyn ar hyd yr un ffordd i Ponty.



Am flynyddoedd bu dwy siop yn gwerthu bwyd yn y stryd. Ym mhen ucha'r stryd, bron yn ei cheg o Ffordd Heolddu, yr oedd siop boblogaidd *Sid's*. Pan ymddeolodd ef a'i deulu fe werthwyd y siop i ddieithryn yn hytrach nag i ddyn a fu wrth ysgwydd Sid am flynyddoedd. Ni fu'r siop Tsieineaidd yn llwyddiannus. Ers blynyddoedd bellach y siop sglodion a bwyd, *Happy Paradise*, sy yn yr adeilad. Ym mhen arall y stryd yr oedd Siop *Llewelyn's* sy bellach yn dŷ annedd. Ei glanweithdra sy wedi aros yn y cof.



Stryd nodweddiadol o'r cymoedd ydy Henry Street. Stryd o bedwar deg naw tŷ. Pum tŷ ar hugain ar yr ochr chwith wrth fynd i lawr y stryd a phedwar ar hugain yr ochr dde. Yn y tŷ cyntaf wedi mynd heibio siop *Sid's* arferai merch i gynghorydd Llafur fyw. Hwn oedd y tŷ cyntaf ym Margod ym mhob etholiad i arddangos posteri gwleidyddol. Wrth gerdded heibio i'r tŷ cofiaf yn fynych fel y bu bron i'r cynghorydd lewygu wrth fy nhraed pan ddywedais wrtho nad oedd angen arwyddion dwyieithog yng Nghwm Rhymni. Onid enwau Cymraeg sy ar yr ardaloedd o Lechryd i Bwllypant!

Yn y stryd hon y magwyd Fred Evans, Aelod Seneddol Etholaeth Caerffili o'r 18fed o Orffennaf 1968 hyd y 3ydd o Fai 1979. Cynyddodd ei fwyafrif o 1874 yn ei etholiad cyntaf yng Nghaerffili i 13,709 yn ei bedwerydd etholiad a'i olaf ar y 10fed o Hydref 1974. Rhif 24 Henry Street oedd ei gartref.

*Fred Evans, Aelod Seneddol
Caerffili 1968-1979 a aned yn*

Yn rhif 13 yr oedd James Colley, glöwr 45 oed yn byw. Ef yn un o'r pedwar cant pedwar deg a laddwyd yn nhrychineb Senghennydd ar y 14eg o Hydref 1913.

Wrth gerdded heibio i'r tŷ holaf fy hun: os oedd y shift yn Senghennydd yn dechrau am chwech o'r gloch y bore pryd y cychwynnodd ef am ei waith? Pa ffordd yr aeth? Dros gomin Gelligaer ac i lawr i'r Shingrig a thros y mynydd i Gwm yr Aber? Neu ei fod yn lletya yn Senghennydd? Dyma'r meddyliau o flaen Rhif 13.

Mae'n siŵr nad oedd James Colley yn gwybod i un o fechgyn y stryd ymuno â Chyffinwyr De Cymru adeg Y Rhyfel Mawr. Adroddwyd yn y Merthyr Express ar y 6ed o Dachwedd 1915 bod Preifat E. Willett wedi colli ei fraich chwith ym Mrwydr Dardanelles ac wedi dychwelyd adref.

Y tro nesaf y cerddaf i lawr Henry Street bydd llinell cerdd Ellyse Gutierrez (o Ysgol Ifor Bach), "Rhesi o dai yn filwyr yn aros am ryfel y gwynt" yn cyfoethogi'r daith.

Colofn y Dysgwyr gan Ann Lewis

Ydych chi'n cofio stori'r rhifyn diwethaf?

Ffoniodd Cadwgan ap Seisyll y Cadeirydd i ddweud bod Blodwen, ei wraig, yn cael *affair* gyda Iestyn. Doedd y Cadeirydd ddim yn credu'r stori ond aeth e adref y diwrnod hwnnw gyda thusw mawr o flodau. 'Mae Blodwen yn hoffi blodau,' meddylodd e, 'a dydy hi ddim wedi cael blodau ers diwrnod ein priodas.' Dydy e ddim yn ddyn rhamantus! Ond pan gyrhaeddodd e'r tŷ, doedd neb yno. Dim Blodwen – ond roedd nodyn ar y bwrdd:

Annwyl Dafydd,

*Mae'n gas gyda fi wisgo siôl a het Gymreig.
Rydw i wedi alaru ar y Pwyllgor.
Rydw i wedi blino ar yr Eisteddfod.
Rydw i wedi cael llond bol ar fyw gyda ti,*

OND

*Rydw i wrth fy modd gyda Iestyn.
Rydw i'n dwlu ar Iestyn.
Rydw i wedi colli fy mhen gyda Iestyn.
Rydw i'n caru Iestyn.
Mae'n well gyda fi Iestyn na ti,*

FELLY

*Rydw i'n mynd i ffwrdd gyda Iestyn.
Ffarwel Dafydd.*

Blodwen

O diar – druan â'r Cadeirydd. Neu ydych chi'n cydymdeimlo â Blodwen?
Mae llawer o idiomaau i ddweud eich bod yn hoffi neu ddim yn hoffi rhywbeth yn y llythyr.

Treiwch eu dysgu a'u defnyddio::

*Mae'n gas gyda fi : I hate
Rydw i wedi blino ar : I'm tired of*

Rydw i wrth fy modd gyda : I really like

Rydw i wedi colli fy mhen gyda.... :has turned my head

*Mae'n well gyda fi : I prefer
ein priodas : our wedding*

Rydw i'n caru : I love


*Rydw i wedi alaru ar : I've had enough of
Rydw i wedi cael llond bol ar : I'm fed up of*

Rydw i'n dwlu ar : I'm crazy about

neb : nobody

*tusw : a bunch
cydymdeimlo â : sympathise with*

Atebion Posau'r Plant ar dudalen 5.




Y ddau wyneb sydd yr un peth yw

Wyneb rhif 7 a wyneb rhif 9

A dyma wneud synnwyr o'r llythrennau!!

rôc - côr	naflwy - llwyfan	swaniod - dawnio	anuc - canu	saem - maes
llebap - pabell	roddad - adrodd	dracia - cadair		



Nos Iau, Mai 5ed 2016

Anwen Hill

“Chwilio am Marco”

Clwb Rygbi Penallta
Ystrad Mynach

7:00

Ar gyfer Cymry Cymraeg a
Dysgwyr lefelau Uwch/
Hyfedredd

COLEG GWENT

Ysgol Undydd.

Cwrs am 5 awr ddydd Sadwrn 21/05/16
Gorsaf Bŵer Cwmbrân 01633 647647

Ysgolion Haf

30 awr ar 8 lefel Yn cynnwys 14awr o wersi anffurfiol
01495 333710

Campws Pontypŵl	Sad-Sul	8.45-17.00	14-15/05/16
Campws Pontypŵl	Llun- Gwen	8.45-17.00	25-29/07/16
Llanbed	Gwen-Sul	9.00-17.00	01-03/07/16

Clwb Clonc

Pob Nos Iau

17:45 – 18:45

Tŷ Rhydychen, Risga

helen.young@coleggwent.ac.uk

01495 333702

mentercaerffili.cymru

Clwb Cerdded/Walking Club Dydd Mercher/Wednesday 10-12

(Dillad Gwrth-ddŵr, esgidiau cerdded/welis)

Mai 4ydd: Six Bells Cwrdd Tŷ Caffi Ebw Fach
NP13 2ND GWASTAD

Mai 11eg: Camlas Rhisga, Cwrdd Tafarn y
Darran

NP11 6GU GWASTAD

Mai 18: Taith Trefil Cwrdd Tafarn Tŷ Uchaf
NP22 4HG SERTH

Pellter y teithiau, fel arfer, yn 3-4 milltir

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Morgan
Roberts - Swyddog Prosiect Llais Menter

Caerffili: 01443 802832

Ar y dydd 07835877612

morganroberts@mentercaerffili.cymru



Clwb Llyfrau “Cwmni”

Caffi'r Hen Lyfrgell

Parc Morgan Jones, Caerffili

2 o'r gloch

Mai 9fed “Llinach”

gyda'r awdur Gareth Wyn
Williams

Mehefin 6ed

“A Oes Heddwes” Myfanwy
Alexander

Gorffennaf 11eg

“Beti Bwt” gan Bet Jones

Medi 5ed

Lluch yn yr Haul” Marlyn Samuel

Croeso cynnes i Gymry Cymraeg
a dysgwyr profiadol.

Manylion gan Jan:

JanPenney@aol.com

02920889827

Clwb Cerdd Cwm Rhymni

Y CYFARFOD OLAF TAN MIS MEDI

Lunar Saxophone Quartet

Pnawn Sadwrn, 14eg o Fai

2:30

£8 (£7.50 i Bensiynwyr)

Canolfan Siloh, Ystrad Mynach

Acsiwn Gelf



Llyfrgell y Fenni
Ddydd Gwener, Mai 6ed
6:30

mentercaerffili.cymru

Clwb Cerdded/Walking Club Dydd Mercher/Wednesday 10-12

Criw Ukulele IWCS Cwmni

Pob nos Fawrth yng Nghanolfan Siloh,
Ystrad Mynach,
6 – 8 o'r gloch
Croeso i bawb gan gynnwys dysgwyr iaith a
dysgwyr offeryn
Ukuleles ar gael i'w benthyg.

Côr Cwm Ni

YMARFER

Pob nos Fawrth yn Ysgol Trelyn
7:00
Croeso i Aelodau Newydd!!

Fyddwch chi byth yn brin o eiriau eto...!

Faint ohonon ni sy'n cael trafferth dod o hyd i'r union air iawn...? Wel, na phoener o hyn ymlaen, oherwydd y mae *Geiriadur Cymraeg Gomer* gan y tad a'r mab, D. Geraint Lewis a Nudd Lewis, yn dod i'n hachub ni!

Mae'r gyfrol yn cynnwys amrywiaeth o eiriau o rai newydd sbon fel 'hunlun' (*selfie*), 'blogiwr' (*blogger*), 'liposugnedd' (*liposuction*) a 'cwsmereiddio' (*customize*) i hen eiriau fel 'trontol' (am ddolen cwpan) a 'cunnog' (hen air am fwced pren i gario llaeth). Ein hoff air ni yma yn Gomer yw 'teisen ffenestr' am deisen Battenberg ac oeddech chi'n gwybod mai 'siop ymdopi' yw *DIY shop*? Y geiriadur hwn yw'r union beth sydd ei angen arnoch ar gyfer byw yng Nghymru'r 21ain ganrif.

Dyma'r gyfrol fwyaf erioed i Wasg Gomer ei gwneud yn ei hanes hir (124 o flynyddoedd hyd yma), tipyn o gamp. Meddai Jonathan Lewis, Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasg Gomer: "Rydym yn hynod falch o gyhoeddi'r geiriadur newydd cyfoes hwn sydd dros 1,300 o dudalennau. Cyflawnodd Geraint Lewis, a'i fab, Nudd, waith arwrol... Bydd hon yn gyfrol werthfawr i bawb sy'n defnyddio neu'n dysgu'r Gymraeg am flynyddoedd lawer ac yn garreg filltir anhepgor i'r iaith".

Bu'r geiriadur arbennig hwn yn y broses o gael ei greu am yn agos i 20 mlynedd pan y gofynnodd Mr John Lewis i Geraint Lewis weithio ar greu geiriadur Cymraeg newydd. Ers hynny, mae'r broses o gasglu geiriau ynghyd wedi bod yn un hir a hynod ddiddorol. Y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a CBAC wedi helpu i ariannu'r cynllun ac wedi bod yn rhan o'r broses gasglu a mireinio geiriau ac ystyron. Defnyddiwyd nifer helaeth o arbenigwyr pwnc a thimau o ddarllenwyr allanol a phrawddarllenwyr i gael y geiriadur i fwcl. A dyma ni!

Y mae *Geiriadur Cymraeg Gomer* yn cynnwys dros 43,000 o ddiffiniadau a miloedd ar filoedd o eiriau. Fyddwch chi byth yn brin o eiriau eto!

Geiriadur Cymraeg Gomer gan D. Geraint Lewis a Nudd Lewis
£35, Gwasg Gomer, clawr caled, 1,344 tudalen

Llun y Mis gan Anne East




Llyfrau'r Enfys Cyf
 Vikki Alexander
 Ebost-Llyfrau'enfys.cymru
 Wefan/website - www.rily.co.uk
 Facebook/llyfrau'enfys
 07970172754

Llyfrau Cymraeg a ddwyieithog arbennig i bob oedran!



Debra Hale
 0771 423 4646
 029 20861575

debra@nicegiftshop.co.uk
www.nicegiftshop.co.uk
 1 Clive Street, Caerphilly

TACSI GORSAF CAERFFILI

Cysylltwch â KEITH ar

02922 362364 neu 07914 355195
[facebook.com/tacsigorsafcaerffili](https://www.facebook.com/tacsigorsafcaerffili)
 Defnyddiwch Gardiau Debyd/Credyd

Happy Snappers



Llunian Llawen

Enthusiastic Amateur Photographers
 All Occasions Considered - Reasonably Priced
Gwasanaeth Cymraeg Ar Gael
 Tracey 07764 750916 Eluned 07825 615349